Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Jamie Pugh Dental Healthcare Ltd
# Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-80391-724-5



© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Jamie Pugh Dental Healthcare Limited fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Jamie Pugh Dental Healthcare Limited yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Aberdâr. Mae'r practis hefyd yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac i'r GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig[1] a'r cynorthwyydd gweithredol ar gyfer Jamie Pugh Dental Healthcare Limited ar 18 Ionawr 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod pandemig COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

[1] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol
- Asesiad risg COVID-19 gweithwyr sydd wedi'u lleoli ar y safle
- Rhestr wirio asesiad risg COVID-19
- Asesiad risg tân
- Tystysgrifau atebolrwydd yswiriant.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal asesiad risg COVID-19 a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, taith y claf ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis.

Cawsom hefyd gopi o'r asesiad risg tân a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021, gan gwmni allanol. Nododd yr asesiad risg rai materion a oedd angen sylw. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu darparu tystiolaeth i ni i ddangos bod yr argymhellion a nodwyd yn yr asesiad risg wedi'u gweithredu neu fod cynnydd yn cael ei wneud.

Clywsom, ar ddechrau’r pandemig COVID-19, fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu i gynorthwyo â’r gwaith o reoli heintiau a’i wella. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi’u gwneud:

- Roedd gweithdrefnau desgiau clir ar waith gydag eitemau diangen yn cael eu symud o'r ystafelloedd triniaeth, y dderbynfa, ardal aros a'r ystafell staff
- Newidiwyd y seddi defnydd am gadeiriau y gellir eu glanhau â chlwt
- Gwisg newydd i'r staff
- Cyfleusterau newid penodol
- Peiriant golchi dillad wedi'i osod.
- Sgrin amddiffynnol wedi'i gosod ar ddesg y dderbynfa
- Peiriannau hylif diheintio dwylo ar gael mewn lleoliadau amrywiol

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, dywedwyd wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos.

Mae unrhyw gleifion y mae angen iddynt weld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith mewn argyfwng meddygol (claf yn llewygu). Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn wythnosol i sicrhau nad ydynt wedi dyddio a'u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i wirio'r silindr ocsigen a'r diffibriliwr bob dydd.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y rhan fwyaf o daflenni ac arwyddion yn y practis yn ddwyieithog. Dywedwyd wrthym fod y prif ddeintydd yn siaradwr Cymraeg ac y caiff hyn ei hyrwyddo yn y daflen gwybodaeth i gleifion. Mae hyn yn helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg sydd eisiau cyfathrebu yn eu hiaith ddewisol. Cawsom wybod hefyd bod gan y practis fynediad at gyfieithydd ar y pryd a gwasanaethau cyfieithu.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom fanylion cofnodion hyfforddiant staff ac fe nodwyd fod yr holl staff angen adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r holl staff yn y practis adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau
- Polisi atal a rheoli heintiau

- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2]
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o’r peiriannau awtoclaf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli cleifion deintyddol yng Nghymru yn ystod y broses adfer ar ôl pandemig COVID-19.[3] Bwriedir i’r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

Cadarnhawyd fod yr holl staff wedi derbyn diweddariadau COVID-19 rheolaidd drwy grŵp WhatsApp[4] penodol, dros e-bost ac wyneb yn wyneb. Mae cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff sy'n gorfod defnyddio masgiau FFP3[5] wedi derbyn prawf gosod i sicrhau bod y masg yn ffitio'n gywir ac y bydd yn cynnig amddiffyniad digonol.

Nodasom fod pob aelod o staff wedi derbyn asesiad risg manwl[6] COVID-19 er mwyn asesu’r risgiau personol o barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig COVID-19. Cadarnhawyd hefyd yn ystod y galwad gwirio ansawdd fod y staff wedi cael eu hasesiadau risg wedi'u hadolygu. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn ymgymryd â phrawf llif unffordd[7] bob bore a bod y canlyniadau yn cael eu rhannu â'r rheolwr cofrestredig.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodi ar waith ar gyfer yr awtoclaf[8] yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Cawsom wybod bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi’i optimeiddio gyda digonedd o stoc yn cael ei chyrchu a’i monitro'n wythnosol gan y tîm nyrsio deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth fod amserlenni glanhau ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ar waith a bod rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cynnal.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

---

[2] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd diheintio. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, AaGIC.

[3] Rheoli cleifion deintyddol yn ystod y broses adfer ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU.

[4] Cymhwysiad traws-blatfform anfon negeseuon ar unwaith yw WhatsApp Messenger sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideos a chlywedol am ddim. Yn ogystal â negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

[5] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

[6] Datblygwyd yr Offeryn Asesu Risg i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws COVID-19.

[7] Mae *profi llif unffordd* yn ffordd gyflym a syml o *brofi* pobl nad oes ganddynt symptomau COVID-19, ond a allai fod yn lledaenu'r feirws o hyd.

[8] Math o offer yw awtoclafau a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offer a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir mewn gweithdrefnau proffesiynol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2021 gan ddefnyddio offer archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru[9] sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 2021-05. Gwnaethom gydnabod hyn fel arfer da oherwydd cwmpas cynhwysfawr yr archwiliad. Gwelsom dystiolaeth fod y cynllun gweithredu canlyniadol ar waith ac yn cael ei fonitro gan y cynorthwyydd gweithredol. Nodwyd o'r archwiliad fod y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 2 wedi cael ei difrodi rhywfaint. Cadarnhawyd yn ystod yr alwad gwirio ansawdd fod trefniadau ar waith ar gyfer atgyweirio'r gadair erbyn diwedd mis Ionawr 2022.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 2 wedi'i hatgyweirio.

Gwelsom fod polisi rheoli heintiau mewn grym a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at hylendid dwylo, ymdrin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, dihalogi, cyfundrefnau glanhau a chyfarpar diogelu personol. Fodd bynnag, nodasom o'r polisi fod mopiau a bwcedi yn cael eu storio yn yr ystafell ddihalogi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig yn ystod yr alwad gwirio ansawdd fod mopiau a bwcedi yn cael eu storio ar fachau yn yr ystafell ddihalogi. Dylid rheoli'r amodau amgylcheddol yn y cyfleusterau dihalogi i leihau'r tebygolrwydd o ail-halogi offer wedi'u sterileiddio.

Rydym yn argymell bod mopiau a bwcedi yn cael eu symud o'r ystafell ddihalogi a'u storio mewn lleoliad mwy priodol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen gwybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Tystysgrifau hyfforddiant gorfodol i'r holl staff

[9] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach. Awdurdod Iechyd Arbennig ydyw yn GIG Cymru ac mae'n cyd-fynd â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

- Adroddiad Rheoliad 16 ymweliad yr unigolyn cyfrifol
- Protocol Meddygol Arbenigol
- Rheolau lleol ar gyfer y peiriant laser
- Adroddiad ac asesiad risg y Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau
- Cofnod gwasanaeth laserau
- Tystysgrif atebolrwydd yswiriant.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rheolwr y practis Jamie Pugh Dental Healthcare Limited yw'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau dilyniant darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

O'r dogfennau allweddol a adolygwyd gennym, roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X. Roedd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau a, lle y bo angen, roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal.

Cawsom yr adroddiad unigolyn cyfrifol diweddaraf, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd y mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Mae Jamie Pugh Dental Healthcare Limited hefyd wedi cofrestru i ddarparu triniaethau laser dosbarth 4 ar gyfer y gweithdrefnau canlynol:

- Meinwe caled
- Triniaeth endotoneg
- Triniaeth asgwrn
- Cyfnodontal
- Meinwe meddal
- Diheintio sianel y gwreiddyn.

Y prif ddeintydd yw unig weithredwr y peiriant laser dosbarth 4. Gwelsom dystiolaeth fod gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a graddnodi blynyddol a oedd o fewn ei ddyddiad. Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith a bod y rhain wedi'u goruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract mewn grym gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau a rheolau lleol[10] yn manylu ar weithrediad diogel o'r peiriant. Roedd y rheolau lleol wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau a'u llofnodi gan yr unig weithredwr. Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth[11] a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser. Gwelsom hefyd fod yr asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom y sampl canlynol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis:

- Polisi Atal a Rheoli Heintiau
- Protocol glanhau
- Protocol hylendid dwylo
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Polisi gwaredu gwastraff
- Protocol glanhau â llaw

Gwelsom fod y polisïau a gweithdrefnau uchod wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Fodd bynnag, nodasom fod y polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru â llaw ac roedd rhai yn anodd eu darllen o ganlyniad i nifer y newidiadau a wnaed. Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau ar waith ar gyfer diweddaru'r polisïau a gweithdrefnau'n electronig.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru'n electronig.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau, dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r ddwy ddogfen gael eu cyhoeddi ar eu gwefan.

[10] Dylai'r rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â rheoli diogelwch laserau, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau o ddydd i ddydd.

[11] Bwriedir hyfforddiant craidd gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar y defnydd diogel o laserau a systemau golau pwls dwys.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Jamie Pugh Dental Healthcare Limited

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn terfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r holl staff yn y practis adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 22 (4) (c) | O ganlyniad i COVID-19, mae hyfforddiant mewnol wedi cael ei oedi. Cysylltodd Tracy Pugh â Blackwood Fire ar 11 Ionawr 2022 i geisio trefnu hyfforddiant swyddog tân mewnol ar gyfer pob aelod o staff, fodd bynnag dywedodd Blackwood Fire nad oedd hyfforddiant mewnol wedi ailddechrau eto a’u bod yn gobeithio ailddechrau dim cynharach na 1 Chwefror 2022. Anfonodd Claire Neads e-bost at Blackwood Fire ar | Tracy Pugh + Claire Neads | Yr holl staff i gwblhau hyfforddiant addysg tân ar Agilio Learning erbyn dydd Mawrth 8 Chwefror 2022.<br><br>Mae hyfforddiant swyddog tân mewnol wedi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 27/01/2022 i geisio trefnu ac mae Tracy Pugh hefyd wedi bod mewn cyswllt â Blackwood Fire. Rydym wedi gwneud cais bod yr holl staff yn cwblhau'r cwrs Addysg Ymwybyddiaeth Tân (1 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus) ar Agilio (a elwir yn isopharm gynt) erbyn dydd Mawrth 8 Chwefror 2022.<br>Ar 02/02/2022, gwnaethom gadarnhau dyddiad hyfforddiant swyddog tân gyda Blackwood Fire ar ddydd Gwener 11 Chwefror 11am – 2.30pm yn y practis. | | ei drefnu ar gyfer dydd Gwener 11 Chwefror 2022 |
| 2 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 2 wedi'i hatgyweirio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 6.62 nodyn | Nid yw ystafell driniaeth 2 wedi'i defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau ers cyn mis Hydref 2021 lle cwblhawyd yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01 05 ac nid fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau nes bod deunydd y gadair wedi'i hatgyweirio. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â Cwmaman Upholstery ac roeddem yn gobeithio gallu trefnu atgyweiriad erbyn diwedd mis Ionawr 2022, fodd bynnag, gan | Tracy Pugh + Claire Neads | 23 Chwefror 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | eu bod yn hynod brysur, y dyddiad cynharaf y gallent ei roi lle i ni oedd canol Chwefror. Maent yn casglu'r gadair ar 23 Chwefror 2022, gan atgyweirio'r toriad bach ar y gwnïad a byddant yn ei dychwelyd atom yr un diwrnod. | | |
| 3 | Dylai'r rheolwr cofrestredig symud y mopiau a'r bwcedi o'r ystafell ddihalogi. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 6.40 | Mae'r mopiau a bwcedi wedi'u symud o'r ystafell ddihalogi i'r seler.<br>Mae'r holl staff yn ymwybodol. | Claire Neads | Cwblhawyd 1 Chwefror 2022 |
| 4 | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru'n electronig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017,<br>Adran 8 | Mae'r holl bolisïau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer fersiynau 2022.<br>Bydd yr holl bolisïau'n cael eu diweddaru'n electronig. | Tracy Pugh + Claire Neads | 30 Mawrth 2022 |
| 5 | Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion gael eu cyhoeddi ar eu gwefan. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017,<br>Adran 5 (2)<br>Adran 6 (2) | Mae angen anfon pob newid i'n gwefan drwy e-bost at Dental Focus (cwmni ein gwefan) ac yna byddant yn trefnu'r newidiadau a all gymryd 3 – 5 diwrnod gwaith ar gyfer newidiadau bach.<br>Mae Datganiad o Ddiben a thaflen y practis wedi'u hanfon drwy e-bost at Dental Focus ar 2 Chwefror gan Claire er mwyn iddynt drefnu diweddariad. | Claire Neads | 14 Chwefror 2022 |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau

bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

| | |
|---|---|
| Enw | Claire Neads – Cynorthwyydd Gweithredol<br>Jamie Pugh – Perchennog y Practis, Cyfarwyddwr + Prif Ddeintydd |
| Dyddiad: | 02/02/2022 |